**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 19eg Gorffennaf 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am nifer y cwynion a ddaeth i law a nifer y llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd gan y cyhoedd. |

1. **GWYBODAETH**

1.1 Cwynion a dderbyniwyd Ebrill 2003 – Mawrth 2004

Nifer y cwynion a dderbyniwyd, yr ymchwiliwyd iddynt ac a ddatryswyd yn unol â pholisi a threfn a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Tân oedd:

| Nifer y Cwyion a Dderbyniwyd | |
|---|---|
| Materion yr Iaith Gymraeg | 1 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 3 |
| Gyrru | 13 |
| Diogelwch Tân | 2 |
| Gwaith yr Ochr Weithredol | 6 |
| Anfon allan | 2 |
| Cyfanswm | **26** |

| Nifer y Cwynion a Brofwyd | |
|---|---|
| Materion yr Iaith Gymraeg | 0 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 1 |
| Gyrru | 10 |
| Diogelwch Tân | 2 |
| Gwaith yr Ochr Weithredol | 3 |
| Anfon allan | 1 |
| Cyfanswm | **16** |

## 2 CRYNODEB O'R CWYNION

2.1 Gweithdrefnau Adnoddau Dynol

| | |
|---|---|
| Lleisiwyd pryder gan ddarpar ddiffoddwr tân rhan amser posib ynghylch y weithdrefn ddethol a'r safonau meddygol cysylltiedig. | *Rhoddwyd esboniad o'r gweithdrefnau meddygol i'r ymgeisydd – datryswyd yn lleol.* |

**Yn ystod y cyfnod hwn cafodd 90 o ymgeiswyr eraill gyfweliadau dethol ar gyfer bod yn Ddiffoddwr Tân Rhan Amser.**

2.2 Gyrru

| | |
|---|---|
| Gwelodd aelod o'r cyhoedd un o gerbydau'r Frigâd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer taith breifat anawdurdodedig. | *Cafodd y gyrrwr ei gyfweld yn ffurfiol.* |

| | |
|---|---|
| Daeth tair cwyn ar wahân ynghylch diffoddwyr tân rhan amser yn mynd yn rhy gyflym wrth ymateb i'r orsaf dân. | *Ar bob achlysur dywedwyd wrth y staff i gadw at y cyfyngiad cyflymder ac i yrru'n ofalus.* |

| | |
|---|---|
| Daeth pedair cwyn gan fodurwyr ynghylch peiriannau tân ar y ffordd i alwadau brys. | *Ar bob achlysur cafodd y gyrrwr o'r gwasanaeth tân ei gyfweld ac roedd y sawl a gwynodd yn fodlon gyda'r canlyniad.* |

| | |
|---|---|
| Gwelodd modurwr un o weithwyr y gwasanaeth tân yn gyrru'n ffyrnig (dim galwad frys). | *Cafodd y swyddog ei gyfweld a rhoddwyd cyngor – datryswyd yn lleol.* |

| | |
|---|---|
| Roedd ffermwr yn honni fod gyrrwr un o gerbydau'r Frigâd wedi bod yn ddigywilydd ac yn amharchus pan stopiodd y traffig er mwyn i'w anifeiliaid groesi'r ffordd. | *Cafodd y swyddog ei gyfweld – datryswyd yn lleol.* |

**Aeth peiriannau tân ar 17,866 o deithiau 'Goleuadau Glas' at ddigwyddiadau, a theithiodd cerbydau GTAGC 2,420,000 o filltiroedd ledled Gogledd Cymru.**

2.3 Diogelwch Tân

| | |
|---|---|
| Cwynodd perchennog gwesty am agwedd a ffordd swyddog archwilio diogelwch tân. | *Datryswyd yn lleol.* |

| | |
|---|---|
| Daeth cwyn am safonau diogelwch tân mewn siop. | *Cafodd yr adeilad ei archwilio a rhoddwyd cyfarwyddiadau i Reolwr y Siop.* |

**Gwnaethpwyd cyfanswm o 9,303 archwiliadau diogelwch tân y llynedd.**

2. **CRYNODEB O'R CWYNION** *(parhad)*

2.4 Gwaith yr Ochr Weithredol

| | |
|---|---|
| Achoswyd difrod i adeilad wrth ymyl wrth chwilio am rywun ar goll. | *Datryswyd yn lleol.* |

| | |
|---|---|
| Gwnaethpwyd trefniadau annigonol i ddiogelu adeilad wedi tân, a hynny wedi arwain at rywun yn dwyn eitemau personol. | *Cafodd y perchennog ei ddigolledu – datryswyd yn lleol.* |

| | |
|---|---|
| Cwynodd trigolion lleol am ostyngiad mawr mewn pwysedd dŵr pan ddefnyddid hydrant yr orsaf dân. | *Datryswyd y mater gan Reolwr yr Adran Eiddo, trwy'r cwmni cyfleustodau.* |

**Aeth staff GTAGC at 11,845 o ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol yn ystod y cyfnod.**

2.5 Anfon allan

| | |
|---|---|
| Oedi wrth fynd at ddigwyddiad wedi i larwm tân ganu mewn adeilad preifat. Roedd hyn oherwydd nad oedd digon o fanylion am y cyfeiriad gan y cwmni monitro larymau. | *Datryswyd gan Reolwr yr Ystafell Reoli a'r cwmni larymau.* |

**Ymdriniodd ystafell reoli GTAGC â 19,322 o alwadau y llynedd.**

3. **Y DREFN GWYNO**

3.1 Ein nod yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw darparu'r gwasanaethau gorau posib, yn y ffordd orau bosib. Er hynny, rydym yn derbyn bod pethau'n mynd o'i le o dro i dro. Rydym yn benderfynol o ddysgu o'n camgymeriadau ac elwa arnynt pan fydd pethau'n mynd o'i le, ac rydym yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaeth i'r cwsmeriaid drwy'r amser.

3.2 Gan gadw hyn mewn cof, eleni byddwn yn cyflwyno ffordd o anfon cwynion a sylwadau o werthfawrogiad ar ein gwefan.

4. **LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD**

4.1 Mae'n werth nodi bod 48 o lythyrau o werthfawrogiad wedi dod i law yn mynegi bodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth.

4. **LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD** *(parhad)*

4.2 Roedd y llythyrau o werthfawrogiad yn cyfeirio at lu o wahanol weithgarwch y Gwasanaeth Tân, ond y gellir eu dosbarthu'n fras fel hyn:

Digwyddiadau'r ochr weithredol
Mentrau ac ymweliadau diogelwch tân cymunedol
Safon y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn Llys
Gwaith elusennol
Ymweliadau i ysgolion
Profiad gwaith
Mentrau i leihau tanau bwriadol a throseddau'r ifanc
Presenoldeb staff GTAGC mewn angladdau

5. **ARGYMHELLIAD**

5.1 Bod yr Awdurdod Tân yn nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd.